



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**Polisi Disgyblion
sy'n Dewis Cael eu
Haddysgu Gartref
2020-2023**

'Llwyddiant i bob plentyn – Success for every child'

Cynnwys

CYNNWYS	TUD
Cyfrifoldebau Cyfreithiol	3
• Rhiant/ gofalwr	3
• Ysgol	4
• Awdurdod Lleol	4-5
Gorchmynion Mynychu'r Ysgol	5
Gorchmynion Goruchwylio Addysg	5-6
Teuluoedd Teithiol	6
Gweithdrefn Gwyno	6
Cysylltiadau	6
Cynghorion Pellach	7
Grwpiau Cefnogi Rhieni	7-8
Atodiadau	9-14
• Atodiad 1 – Holiadur Cyn Ymweld	9-12
• Atodiad 2 – Adroddiad Ymweliad Cychwynnol yr Awdurdod Lleol	13-14

Disgyblion sy'n Dewis Cael eu Haddysgu Gartref
2020-23

Polisi ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Hawl rhieni i addysg eu plant gartref

Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol ond nid yw'n orfodol i fynychu ysgol. Os bydd plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref, mae'n orfodol for rhieni'n darparu addysg llawn amser 'effeithlon' ac 'addas' ar gyfer eu plentyn. Diffinir ystyr addysg addas ac effeithlon yn Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996: 'Bydd rhiant pob plentyn o oed ysgol gorfodol yn sicrhau ei fod yn derbyn addysg llawn amser, effeithlon sy'n addas: (a) ar gyfer oed, gallu a (b) ar gyfer unrhyw anghenion addysgol ychwanegol allai fod ganddo un ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.'

Dylai rhieni sy'n penderfynu addysgu eu plant o'r cartref fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb llawn a gallai hyn gael deilliannau ariannol.

Cyfrifoldebau Cyfreithiol

1. Cyfrifoldebau Rhieni / Gofalwr

"Bydd rhiant pob plentyn sydd o oed ysgol gorfodol yn peri ei fod ef / ei bod hi yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sydd yn addas-

(a) i'w oedran ef / i'w hoedran hi, ei allu/ ei gallu a'i dueddfryd / a'i thuueddfryd, ac

(b) unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod eu hangen arno fe / arni hi,

Un ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall"

Nid oes angen i rieni / gofalwyr gael caniatâd gan yr Awdurdod Addysg i ddechrau addysg yn y cartref, ond, pan fo'r plentyn eisoes yn mynychu ysgol, rhaid hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig o'r bwriad i wneud hynny.

Nid yw'n ofynnol i rieni gymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gweithredu oriau ysgol na rhoi 'gwersi' ffurfiol.

Fodd bynnag, os oes gan ddisgybl Ddatganiad o Anghenion Addysgol, ei fod wedi ei gofrestru mewn ysgol arbennig a bod y rhieni'n dymuno ei addysgu gartref, mae'n ofynnol iddynt hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig o'u dymuniad i addysgu'r plentyn mewn lleoliad gwahanol i'r ysgol. Bydd yr ysgol yn hysbysu'r awdurdod lleol o ddymuniadau'r rhieni ond ni fydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu o'r cofrestr hyd nes y bydd cytundeb wedi ei dderbyn gan yr awdurdod lleol.

**(Rheoliad (Cofrestru Disgybl) Addysg 9(2), 1995);
(Diwygiwyd, Cymru, 2001/1109)**

Mae'r rheoliad hwn er mwyn galluogi ALLau i gynnal parhad o ran eu cyfrifoldeb ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig, yn hytrach na bod yn rhwystr i'r disgyblion hyn sy'n cael eu haddysgu gartref.

Mae dyletswydd statudol ALLau i ymgymryd ag Adolygiad Blynyddol o Anghenion Addysgol Arbennig disgyblion yn parhau.

Dylai'r Adolygiad Blynyddol asesu a yw'r datganiad yn parhau i fod yn briodol a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. Pe byddai'n ofynnol bod y datganiad i gael ei gynnal, bydd y rhiant/rhieni/gofalwr/ŵyr yn parhau â'r cyfrifoldeb dros yr addysg a ddarperir, fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol i sicrhau fod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu.

2. Cyfrifoldebau'r Ysgol

Dylai ysgolion wneud cais am hysbysiad ysgrifenedig gan y rhiant/gofalwr o'u dymuniad i addysgu'r plentyn o'r cartref a'r rheswm dros wneud hynny. Pan fydd yr ysgol yn derbyn yr hysbysiad, yn ysgrifenedig fod rhieni am addysgu eu plentyn yn y cartref, bydd rhaid i enw'r plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr (Rheoliad 8(1) (d) Rheoliadau Addysg (Cofrestriad Disgybl) (Cymru) 2010.) Mae'n rhaid i'r ysgol (gan gynnwys ysgolion yn y sector annibynnol) gysylltu â'r awdurdod lleol oddi fewn 10 diwrnod ysgol o ddyddiad tynnu enw'r disgybl o'r gofrestr (rheoliad 12(3) gan nodi enw'r plentyn, dyddiad geni, cyfeiriad, rheswm dros y cais am ADdoC ac unrhyw AAY.

Os bydd plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol, ni ellir cymryd ei enw oddi ar gofrestr yr ysgol oni bai fod yr ysgol yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig fod y plentyn i'w addysgu gartref. Ni ddylid annog rhieni, ar unrhyw gyfrif, i gymryd eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol i osgoi eithrio neu erlyniad am fethu â sicrhau fod y plentyn wedi bod yn mynychu'r ysgol. Byddai'n ymarfer da i'r ysgol geisio cwrdd â'r rhiant/gofalwr cyn tynnu enw'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r rheswm dros ddewis addysgu'r plentyn o'r cartref.

3. Cyfrifoldebau'r ALI

O dan Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddynodi plant yn eu hardaloedd sydd o oed ysgol, gorfodol ac nad sydd yn derbyn addysg addas.

Mae oblygiad ar yr ALI i gadw cofrestr o ddisgyblion sydd wedi dewis cael eu haddysgu gartref. Caiff hwn ei gynnal gan yr Athro Ymgynghorol sydd â chyfrifoldeb dros Ddisgyblion sy'n Dewis cael eu Haddysgu Gartref.

Bydd yr ALI yn dadansoddi'n rheolaidd y rhesymau pam fo rhieni yn dewis addysgu gartref. Bydd hyn yn helpu i ddynodi unrhyw batrymau neu themâu o ran rhesymau rhieni dros addysgu gartref. Wrth ddadansoddi'r rhesymau, y gobaith yw y bydd yr ALI nid yn unig yn deall addysg yn y cartref yn well, ond hefyd mewn gwell safle i ddatblygu a gweithredu mesurau i annog a chefnogi teuluoedd i gadw eu plant yn yr ysgol.

Er mwyn i'r ALI fod yn fodlon fod yr addysg a dderbyniwyd yn y cartref yn briodol, bydd yr ALI yn gweithredu'r gweithdrefnau canlynol:

- Cysylltu â'r teulu ymhen 20 dydd ysgol, un ai drwy ffonio neu yn ysgrifenedig, i drefnu cyfarfod â'r rhiant/ rhieni/ gofalwr y disgybl. Gall hyn ddigwydd yng nghartref y teulu neu mewn lleoliad arall cytunedig.
Os nad yw'r rhiant/rhieni/gofalwr yn ymateb i ymdrechion yr Athro Ymgynghorol i gysylltu, caiff ymweliad ar y cyd ei wneud i'r cartref gyda Swyddog Lles Addysg.
- Dylai amllder y cyfarfodydd â theuluoedd sydd yn addysgu yn y cartref gael eu gwneud yn gyfrannol ac yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob un plentyn. Dylid cynnal cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau fod addasrwydd yr addysg yn cael ei chynnal a bod y plentyn yn gwneud datblygiad da.
- Cwrdd ag ysgol flaenorol y disgybl i gael gwybodaeth am gynnydd a gallu'r disgybl.
- Ble y bo'n angenrheidiol, ceisio cael cyngor a gwybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill sydd wedi bod yn ymwneud â'r disgybl e.e. Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg Plant.
- Dylai awdurdod lleol, os yw'n teimlo ei fod yn addas gwneud hynny, anfon holiadur cyn ymweliad, cyn ymweld â theuluoedd sy'n addysgu gartref neu rieni a lle y mae' hynny'n berthnasol, i blant allu ei gwblhau ar y cyd. Bydd hyn yn rhan o ddull holistig o asesu

addaswydd yr addysg. Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r ymateb i'r holiadur i hysbysu'r drafodaeth â rhieni a phlant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. (Atodiad 1.)

- Fel rhan o'r cyfarfodydd hyn, dylai'r awdurdod lleol ofyn am gael gweld enghreifftiau o ddysgu er mwyn pennu addasrwydd yr addysg a ddarperir. Gellir gofyn am weld gwaith o safonau amrywiol, sydd wedi ei gwblhau ac sydd heb ei gwblhau a'i drafod â'r rhieni a'r plentyn er mwyn dysgu am brofiad dysgu'r plentyn. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r dysgu a datblygiad y plentyn.
- Sicrhau fod rhiant / rhieni / gofawr yn ymwybodol os ydyn nhw'n dewis addysgu gartref, eu bod yn cymryd arnynt y cyfrifoldeb ariannol dros addysg eu plentyn, yn cynnwys costau arholiadau cyhoeddus a bod yn rhaid i'r plentyn barhau i dderbyn addysg briodol nes diwedd 'addysg orfodol' (hynny yw, y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd y mae'r plentyn yn cyrraedd 16 mlwydd oed).

Os bydd pryderon ynghylch safon y ddarpariaeth, gellir cytuno ar ragor o ymweliadau a chaniatáu i'r Athro Ymgynghorol a'r rhieni drafod ffyrdd i wneud gwelliannau.

- Bydd yr Athro Ymgynghorol yn cadw cofnodion o'r ymweliadau a'r ddogfennaeth a dderbyniwyd ac yn paratoi adroddiad, ddim hwyrach na 10 diwrnod ar ôl cwrdd â'r teulu. Dylai'r adroddiad amlinellu os yw'r ddarpariaeth yn addas neu'n anaddas a'r rhesymau y tu ôl i asesiad y ddarpariaeth honno. Dylai rhieni gael cyfle i drafod yr adroddiad â'r awdurdod lleol ac i unrhyw amrywiadau ffeithiol gael eu cywiro ar fyrder. (Atodiad 2)
- Caiff unrhyw achosion unigol sy'n peri pryder eu dwyn at sylw Grŵp Clirio'r ALI. Bydd yr Athro Ymgynghorol yn cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth i'r panel er mwyn cael cyngor priodol ynghylch gweithredu yn y dyfodol.
Os yw'r Grŵp Clirio yn penderfynu fod, er gwaethaf nifer o ymweliadau a chynnig cyngor, nad yw'r disgybl yn derbyn addysg briodol, bydd cyngor yn cael ei geisio oddi wrth yr Adran Gyfreithiol cyn gofyn am gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol 437.
- Os bydd pryderon yn codi o ran Amddiffyn Plant, caiff Swyddog Diogelu Plant yr Awdurdod ei hysbysu gan dderbyn cyngor yn unol â hynny.
- Os bernir mai annoeth fyddai i'r Athro Ymgynghorol ymweld â'r cartref ar ei ben ei hun, cysylltir â'r Swyddog Lles Addysg er mwyn trefnu ymweliad ar y cyd.

Gorchymynion Mynychu'r Ysgol (GMY)

- Os bydd yr awdurdod lleol yn teimlo nad yw plentyn yn derbyn addysg addas, mae'n **rhaid** iddynt gyflwyno hysbysiad, yn ysgrifenedig i'r rhiant, yn gorchymyn fod y rhiant yn bodloni'r awdurdod lleol, oddi fewn i'r cyfnod a nodir ar yr hysbysiad (dim hwyrach na 15 diwrnod) fod y plentyn yn derbyn yr addysg. Os na fydd yr awdurdod lleol yn fodlon, neu os na fydd yn derbyn gwybodaeth, bydd **rhaid** i'r awdurdod gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol (GMY) i'r rhiant gan roi manylion o'r ysgol y dylai'r plentyn ei fynychu.

Gorchymynion Goruchwylio Addysg (GGA)

- O dan Adran 447, o Ddeddf Addysg 1996, os bydd rhiant yn methu â chydymffurfio â GMY, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried os byddai'n addas (yn hytrach neu yn ogystal â chymryd camau sefydliadol) i wneud cais am orchymyn goruchwylio addysg (GGA) ar gyfer y plentyn. Gall methiant i gydymffurfio â GMY arwain at naill ai euogfarn droseddol neu osod GGA neu'r ddau.

Teuluoedd Teithiol

Mae safle arbennig Teuluoedd Teithiol hefyd yn cael ei gydnabod gan y gyfraith (adran 444(6), Deddf Addysg 1966). Caiff rhiant/rhieni/gofalwyr teithiol eu diogelu rhag eu herlyn os yw'r rhiant/rhieni/gofalwr yn gallu arddangos y canlynol:

- Ei fod ef neu hi yn ymgysylltiedig â masnach neu fusnes o'r fath natur fel ei fod yn ofynnol i deithio o le i le;
- Bod y plentyn wedi mynychu ysgol fel disgybl cofrestredig mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes hwnnw yn caniatáu;
- Bod y plentyn, pan oedd yn chwech oed neu'n hŷn, wedi mynychu ysgol am o leiaf 200 sesiwn (hanner dyddiau) yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

Gweithdrefn Gwyno

Pan fydd gan rieni / gofalwyr bryderon neu'n dymuno cofrestru cwyn, fe ddylent, i ddechrau, gysylltu â'r Athro Ymgynghorol, a fydd yn ceisio datrys unrhyw broblemau. Os yw rhiant/ gofalwr yn anfodlon â'r cyngor a gaiff ei gynnig, neu'n profi anghydfod â'r Athro Ymgynghorol, dylai cwynion gael eu gwneud drwy weithdrefn gwyno'r ALL.

Cysylltiadau

Rheolwr Cynhwysiant –Adran Ysgolion
Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad
Uned 5 Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ
01685 725000
Education.welfareteam@merthyr.gov.uk

Athro Ymgynghorol sydd â Chyfrifoldeb dros Ddisgyblion sy'n Dewis cael eu Haddysgu Gartref
Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad
Uned 5 Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ
01685 725000
Education.welfareteam@merthyr.gov.uk

Uwch Swyddog Lles Addysg
Adran Ysgolion
Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad
Uned 5 Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ
Senior Education Welfare Officer
01685_725000
Education.welfareteam@merthyr.gov.uk

Cynghorion Pellach:

Butterworth's Education Law Manual [BELM rhifyn 0 Tudalen A/476-A484]
<http://www.butterworths.co.uk>

Cynhwysiant a Chefnogi Disgybl
Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006
www.wales.gov.uk/inclusionandpupilsupport

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018 (drafft)

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02

Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg

Grwpiau Cefnogi Rhieni:

Canolfan Ymgynghorol ar gyfer Addysg

1b Aberdeen Studios
22/24 Highbury Grove
Llundain N5 2DQ
Ffôn: 0207 3548321
www.ace-ed.org.uk

Christian Home School

www.homeschool.co.uk

Education Otherwise Association Limited

Blwch SP 7420
Llundain N9 9SG
Ffôn: 0870 7300074
www.education-otherwise.org

Gwasanaeth Ymgynghori Addysg yn y Cartref

Blwch SP 98,
Welwyn Garden City,
Herts. AL8 6AN
Ffôn: 01707 371854
www.heas.org.uk

Home Education UK

www.home-education.org.uk

Adnoddau Addysg yn y Cartref

www.home-education-resources.co.uk

Muddle Puddle

(Gwefan annibynnol yn canolbwyntio ar ddysgu plant 0-8 oed)

www.muddlepuddle.co.uk

The Home Service

(Grŵp addysg gartref cenedlaethol Cristnogol)

www.home-service.org

Gyrfa Cymru

www.careerswales.com

Ed Yourself

www.edyourself.org

Mae Addysg yn Dechrau yn y cartref

www.facebook.com/beginsathome

Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr

www.gypsy-traveller.org/education

Dysgu Cymru

www.gov.wales/learning

TSO
www.tso.co.uk

Llywodraeth Cymru
www.gov.wales

Hwb
<https://hwb.gov.wales/>

Atodiad 1

Holiadur Cyn Cyfarfod

Addysg Ddewisol yn y Cartref– Holiadur Cyn Ymweliad

Cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon, mae'r Gwasanaeth Llesiant Addysg yn cydnabod efallai y bydd angen rhagor o amser arnoch er mwyn cynllunio'n llawn a gweithredu eich dyheadau addysg yn y cartref. Teimlwch yn rhydd i ymateb i'r meysydd yr ydych yn hyderus yn eu gwneud.

Enw'r rhiant/gofalwr *	
Enw'r dysgwr	
Oed y dysgwr	
Rhywedd y dysgwr	
Oes gan eich plentyn unrhyw anghenion addysgol ychwanegol (AAY?)	
Ysgolion blaenorol (os oes rhai)	
Dyddiad y dechreuwyd ar Addysg yn y Cartref	
Rhesymau dros Addysg yn y Cartref	
Athroniaeth addysgol neu ddull o weithio	
Dyddiad	
<i>Crynowch wybodaeth a sgiliau cyfredol y dysgwr, sut y mae wedi datblygu dros amser a beth y mae'n gobeithio ei ddysgu nesaf</i>	
<u>Gwybodaeth a Sgiliau Cyfredol y Dysgwr</u>	

Datblygiad y Dysgwr

Amcanion y Dysgwr a sut y byddant yn cael eu cyflawni

Amgylchedd

Lle y mae'ch plentyn yn derbyn ei addysg?

Gartref Grwpiau dysgu cartref Llyfrgelloedd Tripiâu addysgol e.e. amgueddfeydd, cestyll ac ati Arall

Profiadau

Amlinellwch y cyfleoedd sydd ar gael i'ch plentyn allu dysgu o brofiadau bywyd go iawn; y cyfleoedd i'ch plentyn drafod materion personol, cymdeithasol ac iechyd a'r cyfloed i'ch plentyn gael profiad eang o weithgareddau fel cerddoriaeth a chelf.

Cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol a chwarae

Rhyngweithio

Amlinellwch y cyfleoedd i'ch plentyn gael profiadau cymdeithasol â phlant eraill a gwneud ffrindiau.

Adnoddau

Rhestrwch rhai o'r adnoddau yr ydych yn eu defnyddio er mwyn hwyluso dysgu'ch plentyn e.e. adnodau ar-lein, llyfrau gwaith addysgol, llyfrgelloedd ac adnoddau cymunedol.

A hoffech allu cyrchu unrhyw adnoddau penodol?

Pwy sy'n darparu'r addysg/gwersi ar gyfer eich plentyn?

Rhiant/Gofalwr Aelod(au) eraill o'r teulu Ffrindiau'r teulu

Grwpiau ADdyC Tiwtor preifat Arall

**Os darparir gwersi gan eraill, ydych chi'n ymwybodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y gallech ofyn i diwtoriaid eu harddangos? Ydw
Nac ydw**

Cysylltiadau â sefydliadau eraill

Ydych chi'n hapus i ni gysylltu â chi eto, yn unol â dogfen bolisi'r awdurdod lleol?

Ymweliad blynyddol er mwyn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg

le Na

Atodiad 2

Adroddiad yr Awdurdod Lleol

Adroddiad Ymweliad Cychwynnol yr Awdurdod Lleol

Dyddiad yr Ymweliad:

Enw'r rhiant/gofalwr *	
Enw'r dysgwr	
Dyddiad geni'r dysgwr	
Rhywedd y dysgwr	
Oes gan eich plentyn unrhyw anghenion addysgol ychwanegol (AAY?)	
Ysgolion blaenorol (os oes rhai)	
Dyddiad y dechreuwyd ar Addysg yn y Cartref	
Rhesymau dros Addysg yn y Cartref	
Athroniaeth addysgol neu ddull o weithio	
Dyddiad	
<i>Crynowch wybodaeth a sgiliau cyfredol y dysgwr, sut y mae wedi datblygu dros amser a beth y mae'n gobeithio ei ddysgu nesaf</i>	
<u>Gwybodaeth a Sgiliau Cyfredol y Dysgwr</u>	

Datblygiad y Dysgwr

Amcanion y Dysgwr a sut y byddant yn cael eu cyflawni

Amgylchedd

Lle y mae'ch plentyn yn derbyn ei addysg?

Gartref Grwpiau dysgu cartref Llyfrgelloedd Tripiâu addysgol e.e. amgueddfeydd, cestyll ac ati Arall

Profiadau

Amlinellwch y cyfleoedd sydd ar gael i'ch plentyn allu dysgu o brofiadau bywyd go iawn; y cyfleoedd i'ch plentyn drafod materion personol, cymdeithasol ac iechyd a'r cyfloed i'ch plentyn gael profiad eang o weithgareddau fel cerddoriaeth a chelf.

Cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol a chwarae

Rhyngweithio

Amlinellwch y cyfleoedd i'ch plentyn gael profiadau cymdeithasol â phlant eraill a gwneud ffrindiau.

Adnoddau

Rhestrwch rhai o'r adnoddau yr ydych yn eu defnyddio er mwyn hwyluso dysgu'ch plentyn e.e. adnodau ar-lein, llyfrau gwaith addysgol, llyfrgelloedd ac adnoddau cymunedol.

A hoffech allu cyrchu unrhyw adnoddau penodol?

Pwy sy'n darparu'r addysg/gwersi ar gyfer eich plentyn?

Rhiant/Gofalwr Aelod(au) eraill o'r teulu Ffrindiau'r teulu

Grwpiau ADdyC Tiwtor preifat Arall

**Os darparir gwersi gan eraill, ydych chi'n ymwybodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y gallech ofyn i diwtoriaid eu harddangos? Ydw
Nac ydw**

Cysylltiadau â sefydliadau eraill

**Ydych chi'n hapus i ni gysylltu â chi eto, yn unol â dogfen bolisi'r awdurdod lleol?
Ymweliad blynyddol er mwyn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg
Ie Na**